Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant â ffocws

**Cylch Meithrin Tywyn**
**Ty Mabon**
**Ffordd Neifion**
**Tywyn**
**Gwynedd**
**LL36 9ET**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Tywyn wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mehefin 2014

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw Cylch Meithrin Tywyn oddi ar y rhestr o leoliadau y mae angen gwelliant â ffocws arnynt

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Sicrhau cyfleoedd cyfoethog a chyson i blant ddatblygu medrau cynnar llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y chwe maes dysgu

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn darparu gweithgareddau diddorol, priodol a chyson i blant ddatblygu medrau cynnar llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ystod o gyd-destunau. Mae ymarferwyr y lleoliad yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau allweddol y plant ac yn ymdrechu'n dda i siarad Cymraeg gyda nhw a bwydo iaith safonol iddynt. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd rheolaidd yn ystod y dydd i'r plant wrando ar straeon a chanu hwiangerddi Cymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu gallu a'u hyder i siarad Cymraeg wrth iddynt sôn am eu hoff gymeriadau ac ailadrodd digwyddiadau.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i'r plant weld iaith ysgrifenedig ar draws y lleoliad, trwy labelu gwrthrychau ac adnoddau ym mhob ardal. Mae'r rhain yn cael eu hamrywio a'u haddasu i fod yn amserol, ac yn rhoi cyfle i blant ddefnyddio iaith briodol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Er enghraifft, mae'r arddangosfeydd sy'n ymwneud â'r gymuned yn ogystal â gwaith ar dyfu a mesur blodau yn rhoi cyfle da i blant i arsylwi ar wrthrychau'n agos a thrafod yr hyn maent yn ei weld.

Mae'r plant yn derbyn llawer o gyfleoedd priodol i farcio ac ymarfer medrau ysgrifennu cynnar yn ystod gweithgareddau'r dydd, a hynny mewn ardaloedd dysgu gwahanol. Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr ar gyfer yr ardal allanol sy'n datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn briodol; er enghraifft, wrth iddynt ddosbarthu llythyrau i'r blychau postio cywir a marcio ar raddfa fawr ar y byrddau du.

Mae rhifau yn cael lle amlwg mewn arddangosfeydd ym mhob rhan o'r adeilad. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n briodol er mwyn sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau rhifedd mewn ystod o feysydd yn ystod sesiynau.

Mae llawer o'r plant yn mwynhau gweithio ar y cyfrifiadur wrth greu darluniau a chwarae gemau sy'n datblygu eu medrau iaith a llythrennedd. Mae'r plant hŷn yn hyderus wrth ddefnyddio teganau rhaglenadwy ac mae hyn yn datblygu eu medrau datrys problemau yn dda.

Mae mwyafrif y plant yn mwynhau'r sesiynau dysgu. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau sydd wedi eu hanelu'n fwriadus at grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn herio'r plant mwyaf galluog ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Argymhelliad 2: Gwella asesu, cynllunio ac addysgu'r ymarferwyr er mwyn sicrhau darpariaeth dda sy'n arwain at godi safonau**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cynllunio cadarn sy'n rhoi sylw da i ddarparu tasgau amrywiol. Mae'r gweithgareddau dyddiol yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau symbylus o fewn y chwe maes dysgu sy'n eu galluogi i wneud cynnydd priodol. Mae ymweliadau â'r gymuned leol ac â'r orsaf dân yn benodol, yn cyfrannu'n dda at brofiadau'r plant. Mae'r lleoliad yn paratoi cynlluniau sy'n cynnwys cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau allweddol y rhan fwyaf o'r plant yn effeithiol, yn enwedig yn ystod gweithgareddau ymarferol. Drwyddi draw, mae'r cynlluniau'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth o gyrhaeddiad blaenorol y plant. Er bod gan y gwaith cynllunio ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd plant, nid yw'r cynlluniau ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn ystod gweithgareddau rhydd wedi eu datblygu'n llawn hyd yma.

Mae gan y lleoliad drefn bendant ar gyfer y dydd, sy'n helpu plant i setlo a chyfarwyddo â threfn. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i alluogi'r plant i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol trwy sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r drefn ddyddiol a'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ganddynt. Mae hyn yn galluogi llawer o blant i wneud penderfyniadau a chymryd perchnogaeth dros eu dysgu. O ganlyniad, mae lefel ymrwymiad llawer o'r disgyblion yn ystod gweithgareddau ffocws yn dda. Mae'r lleoliad yn darparu sesiwn agoriadol ddyddiol, fywiog sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r ymarferwyr fwydo iaith yn gyson i'r plant a rhoi cyfle iddynt ymateb i gwestiynau am y tywydd a phwy sy'n bresennol. Darperir cyfleoedd defnyddiol i'r plant ddysgu gan oedolion yn eu chwarae rhydd a thrwy gymryd rhan mewn sesiynau stori a chanu.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith raenus sy'n cael effaith gadarnhaol wrth gyfoethogi iaith lafar y plant. Mae hyn yn cael effaith dda ar allu'r mwyafrif i ymateb yn syml yn y Gymraeg. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y plant yn derbyn cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn ystod amser byrbryd ac yn y sesiynau awyr agored.

Mae'r lleoliad wedi diwygio ei weithdrefnau asesu yn llwyddiannus er mwyn cynorthwyo'r ymarferwyr i gynllunio ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu at yr asesiadau hyn er mwyn cwblhau cofnodion cynnydd y plant. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth glir o anghenion unigolion er mwyn diwallu anghenion llawer o'r plant, yn enwedig y rhai mwy galluog. Mae hyn yn cynorthwyo'r ymarferwyr yn llwyddiannus i herio unigolion i gyflawni safonau da.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r arweinwyr wedi mabwysiadu polisi diogelu plant y Mudiad Meithrin, ac mae'r pwyllgor wedi ei dderbyn yn ffurfiol. Mae'r ymarferwyr yn dilyn y gweithdrefnau priodol mewn perthynas â diogelu yn gyson. Mae diogelwch y lleoliad o ran mynediad i'r safle yn cael ei reoli'n effeithiol.

Yn ychwanegol at hyfforddiant yr arweinydd, mae'r ymarferwyr i gyd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar ddiogelu. O ganlyniad , mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod yr holl staff yn mynychu hyfforddiant er mwyn gwella eu dealltrwriaeth o ddarpariaeth, addysgu a rheolaeth**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae hyfforddiant gan swyddogion y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol, yn ogystal â mewnbwn sylweddol gan yr athrawes gefnogol, wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth ymarferwyr o arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth glir o'r hyn sydd angen ei ddarparu ac maent yn cynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau awyrgylch dysgu cefnogol o fewn yr ardaloedd dysgu gwahanol. Er enghraifft, maent yn cadw at drefn ddyddiol o weithgareddau ac yn sicrhau bod adnoddau marcio a thoes ar gael yn barhaus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd y plant. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn setlo'n fuan wrth eu gweithgareddau ac yn dyfalbarhau i gwblhau eu tasgau. Mae ymarferwyr yn aml yn cynnig adborth llafar adeiladol wrth weithio gyda'r plant ac yn esbonio'n glir beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant effeithiol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r angen i gynllunio'n fwy manwl. Mae amcanion y gweithgareddau bellach yn fwy clir ac yn briodol i oed a gallu bron pob un o'r plant. Mae hyn yn arwain at well ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd y plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd ysgogol iawn ac yn creu arddangosfeydd lliwgar sy'n dangos parch at waith y plant. Mae gan y gwaith sydd ar y waliau ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae ymarferwyr bellach yn fwy ymwybodol o anghenion unigol y plant ac, o ganlyniad, mae'r cynlluniau tymor byr yn nodi rhai gweithgareddau a heriau mwy cynhwysfawr ar gyfer gweithgareddau ffocws. Wrth i blant newydd, o allu ac oed gwahanol, gychwyn yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn addasu eu cynllunio er mwyn bodloni anghenion amrywiol ac ystod gallu'r plant hyn.

Mae dealltwriaeth yr arweinydd o'i chyfrifoldebau rheoli yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae wedi sicrhau bod trefniadau cynllunio ac asesu yn cael sylw da mewn cyfarfodydd staff ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau plant. Serch hyn, nid yw cyfrifoldebau wedi eu rhannu'n ddigon clir fel bod yr holl ymarferwyr yn ymgymryd ag agweddau penodol wrth gynllunio a gweithredu ar gyfer gwelliant.

**Argymhelliad 5: Ffurfio pwyllgor rheoli sy'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion manwl o'u trafodaethau. Mae gan y cyfarfodydd ffocws clir ar werthuso perfformiad y lleoliad ac mae'r aelodau'n cynnig her briodol wrth drafod safonau dysgu ac addysgu gyda'r arweinydd. Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn cynnal arsylwadau ffurfiol o waith y lleoliad ac yn darparu adroddiad arfarnol ar gyfer gweddill yr aelodau. Mae'r adroddiad yn sail gadarn ar gyfer trafod cryfderau'r lleoliad yn ogystal â'r meysydd sydd angen eu gwella a'u datblygu ymhellach. O ganlyniad, mae dealltwriaeth a gallu aelodau'r pwyllgor mewn perthynas â hunanarfarnu yn datblygu'n dda.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cydweithio'n agos â swyddog yr awdurdod lleol i weithredu ar argymhellion adroddiadau ansawdd. Mae hyn yn eu galluogi i gynorthwyo'r lleoliad i gynllunio ar gyfer gwella. Trwy gymryd rhan fwy gweithredol yn y weithdrefn hunanarfarnu, mae'r pwyllgor rheoli bellach mewn sefyllfa gref i gefnogi'r ymarferwyr yn eu gwaith o ddarparu cwricwlwm eang sy'n bodloni anghenion pob plentyn yn dda.

**Argymhelliad 6: Gwella prosesau hunan arfarnu y lleoliad a chreu cynllun sy'n canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau ar gyfer gwelliant.**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn yr arolygiad craidd yn fanwl, yn nodi'n briodol gamau gweithredu, deilliannau, adnoddau, yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb ac amserlen weithredu. Mae'r lleoliad wedi ymateb yn gadarnhaol i'r meysydd sydd angen eu gwella ac mae gweithdrefnau hunanarfarnu bellach yn cynnwys yr ymarferwyr, y rhieni a'r pwyllgor rheoli.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r lleoliad yn briodol a gwneir defnydd effeithiol o arsylwadau uniongyrchol gan nifer o randdeiliaid. Gyda chefnogaeth swyddogion cyswllt y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol, mae'r lleoliad yn defnyddio ystod o weithgareddau buddiol yn llwyddiannus er mwyn adnabod cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae dealltwriaeth yr arweinydd o'r broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn datblygu'n dda ac mae adroddiad hunanarfarnu'r lleoliad yn gynhwysfawr ac yn arfarnol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cyfrannu'n dda at y gwaith hunanarfarnu. Maent yn trafod yr hyn mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda gyda'r arweinydd, yn ogystal â'r hyn sydd angen ei ddatblygu. Mae hyn eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar y cynllunio, yr amgylchedd dysgu a'r ddarpariaeth awyr agored. Yn sgîl y cydweithio agos sydd bellach yn bodoli, mae mwyafrif o flaenoriaethau'r cynllun datblygu yn cysylltu'n glir â deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu. Er enghraifft, mae cynllunio mwy manwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant ar draws y cwricwlwm eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys targedau meintiol ac ystyriaethau cyllidol, yn ogystal â meini prawf llwyddiant a chyfrifoldebau staff. Mae hon yn ddogfen ddefnyddiol ac yn cynnwys blaenoriaethau clir ar gyfer gwella.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai Cylch Meithrin Tywyn barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.